**Bwrsariaeth Gwyneth Evans**
**Telerau ac Amodau**

1. Mae'r fwrsariaeth hon yn agored i Israddedigion yn unig

2. Rhaid i ymgeiswyr feddu ar gynnig gan Brifysgol Aberystwyth

3. Rhaid i ymgeiswyr allu darparu tystiolaeth eu bod nhw efo incwm aelwyd trethadwy o £40,000 neu lai cyn dechrau yn y brifysgol ac wedi cael eu geni yng Ngheredigion neu wedi byw yng Ngheredigion am y 3 blynedd cyn gwneud cais.

4. Mae'r fwrsariaeth yn werth £500 y flwyddyn. Gwneir taliadau mewn dau randaliad cyfartal yn uniongyrchol i gyfrif banc y derbynwyr. Y symiau fydd; £250 ym mis Rhagfyr a £250 ym mis Mawrth.

5. Bydd y Panel Dyfarnu yn cyfarfod i benderfynu ar y dyraniadau; mae penderfyniad y Panel Dyfarnu yn derfynol.

6. Mae’n bosibl y bydd gofyn i’r ymgeisydd llwyddiannus weithio gyda thiwtor dynodedig, adrannau academaidd y Brifysgol, a’r Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni i hyrwyddo’r fwrsariaeth a’r effaith a gafodd ar eu hastudiaethau.

7. Ni wneir taliadau yn ystod blwyddyn dramor, blwyddyn mewn gwaith, blwyddyn rhyng-gwrs, blwyddyn sy’n cael ei hailwneud, ac ati.

8. Mae’r gwobrau’n daladwy i fyfyrwyr sy’n astudio ar gyfer gradd lawn yn unig (nid i’r sawl sydd wedi trosglwyddo i flynyddoedd 2 neu 3 o’r cwrs).

9. Bydd taliadau i fyfyrwyr sy’n tynnu’n ôl dros dro yn ailgychwyn o ddechrau’r tymor llawn nesaf pan ailgychwynnant ar eu hastudiaethau (ni fydd unrhyw daliadau sy’n weddill o’r tymor pan dynnant yn ôl yn cael eu talu).

10. Mae’n bwysig cofio, os y byddwch mewn dyled i’r Brifysgol, y bydd taliadau’r Ysgoloriaeth neu Fwrsariaeth yn cael eu dal yn ôl a’u defnyddio yn erbyn y ddyled.

11. Os bydd myfyriwr yn tynnu’n ôl o’u hastudiaethau am byth cyn Rhagfyr 1af, bydd y Swyddfa Gyllid yn hawlio’r cyfan o’r taliad cyntaf yn ôl. Os bydd myfyriwr yn tynnu’n ôl am byth rhwng Rhagfyr 1af a Mawrth 2il, bydd y Swyddfa Gyllid yn hawlio yn ôl y cyfan o’r ail daliad. O dan yr amgylchiadau hyn, os nad yw’r symiau yn cael eu had-dalu, mae’n bosibl y bydd yr achos yn cael ei gyfeirio at asiantaeth casglu dyledion y Brifysgol.

12. Mae’r wybodaeth a geir yn y ddogfen hwn yn berthnasol i fyfyrwyr a fydd yn ymgymryd â’u hastudiaethau yn Aberystwyth yn unig, ac nid yw’n berthnasol i fyfyrwyr sy’n astudio rhaglenni breiniol neu raglenni wedi’u dilysu a gyflwynir gan bartneriaid.

13. Bydd cynnydd academaidd anfoddhaol, neu gynnydd anfoddhaol yn unrhyw un o'r meysydd hyn, heb achos da, yn arwain at derfynu'r dyfarniad.

14. Bydd taliadau'n parhau am gyfnod y dyfarniad yn amodol ar gymhwysedd parhaus

15. Bydd methu â bodloni unrhyw un o'r gofynion uchod yn arwain at dynnu'r fwrsariaeth yn ôl.